# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**25 Mai 2022**

Yn Bresennol: Mrs J James (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd M James adeg ystyried yr adroddiad, fodd bynnag gan ei fod yn cael anawsterau technegol, parhaodd y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair.]

(Cyfarfod rhithiol: 10.00 a.m. – 12.05 p.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans, Mr GA Jones a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Holodd un Aelod a oedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6$^{ed}$ o Ebrill 2022 ar gael pan gyflwynwyd yr adroddiad ar y strwythur staff. Atebodd y Prif Weithredwr mai Gweithdy oedd y cyfarfod dan sylw yn hytrach na chyfarfod Pwyllgor, ac felly ni chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021.

**4. Eithrio'r Cyhoedd**
**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

*(Ymddiheurodd Dr R Heath-Davies gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.)*

**5. Ailstrwythuro'r sefydliad**
Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, wedi gofyn am gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf o ran ailstrwythuro'r sefydliad. Roedd yr adroddiad oedd ger eu bron felly yn eu

hatgoffa o gynigion gwreiddiol yr Awdurdod ar gyfer ailstrwythuro, yn amlinellu'r ymgynghoriad cyfunol ac unigol â’r staff oedd wedi digwydd, yn nodi'r diwygiadau oedd yn cael eu hystyried i'r cynnig gwreiddiol o ganlyniad i'r ymgynghori â’r staff, ac yn gofyn am gymeradwyaeth i weithredu’r cynigion diwygiedig hynny, oedd wedi cael ystyriaeth lawn gan y Tîm o Uwch Arweinwyr. Nodwyd bod un neu ddau o feysydd lle'r oedd angen rhagor o waith, a cheisir penderfyniad ar y rhain mewn cyfarfod yn y dyfodol. Rhoddwyd amlinelliad hefyd ar y modd y byddai'r strwythur arfaethedig yn cael ei integreiddio i waith yr Awdurdod o ddydd i ddydd. Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd rhestr o sylwadau a wnaed gan y staff ar y cynigion, ynghyd ag ymateb drafft y swyddogion.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion am gyflwyno adroddiad cytbwys, oedd yn dyst i ofal a chwrteisi’r Awdurdod i’r staff. Dywedodd un Aelod bod nifer y bobl sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr yn parhau heb newid, a holodd a oedd Cyfarwyddwr ychwanegol wedi'i ystyried. Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn ariannol hyfyw. Hefyd cwestiynwyd cyfansoddiad Tîm Arweinwyr yr Awdurdod yn y dyfodol, gan nad oedd yn gwbl amlwg a fyddai’r rhai sy’n adrodd yn uniongyrchol i’r Prif Weithredwr yn rhan o’r Tîm hwnnw. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn hapus bod y staff priodol yn adrodd yn uniongyrchol iddo ef, ac eglurodd y byddai'r Tîm Arweinwyr yn cynnwys ef ei hun, y ddau Gyfarwyddwr a Phenaethiaid Cyllid, Cyfathrebu a Marchnata, Pobl a Llywodraethu, Adfer Natur, Twristiaeth Adfywiol, Datgarboneiddio, Ymgysylltu a Chynhwysiant, a Creu Lleoedd.

Mynegwyd peth pryder hefyd bod gwybodaeth am y strwythur diwygiedig wedi'i rannu gyda'r Pwyllgor AD yn unig, yn hytrach nag Aelodaeth ehangach yr APC. Pwysleisiwyd hefyd pa mor bwysig oedd cyfathrebu clir ac amserol â’r staff. Atebodd y Prif Weithredwr bod pob Aelod wedi'u gwahodd i weithdy mis Ebrill pan gafodd y cynigion eu hamlinellu, ac unwaith y byddai'r strwythur newydd yn gliriach, y byddent yn derbyn gwybodaeth bellach. Fodd bynnag, roedd penderfyniadau ar faterion staffio wedi’u dirprwyo i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am sicrwydd y byddai'r strwythur arfaethedig yn ariannol gynaliadwy yn y dyfodol. Gan siarad fel Swyddog Adran 151 yr Awdurdod, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod yr Awdurdod ar hyn o bryd mewn sefyllfa ariannol gref gyda lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, a bod y costau ychwanegol yn fforddiadwy yn y tymor canolig. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r strwythur arfaethedig yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol wrth symud ymlaen, ac y byddai disgwyl i'r Penaethiaid Adran newydd wneud hynny. Gofynnodd yr Aelodau am gael proffil costau ar gyfer cyflogau, pensiynau ac ati dros 3-5 mlynedd, a chael diweddariadau rheolaidd ar hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn.

Roedd rhai Aelodau yn parchu'r pryderon a fynegwyd gan y staff ynghylch effaith yr adolygiad arfaethedig o'r cyflogau a'r graddfeydd. Dywedodd y Prif Weithredwr bod hwn yn ymarferiad ar wahân i'r ailstrwythuro, ac eglurodd y Rheolwr AD yn sgil arolygon tebyg, ei bod yn debygol y byddai 95% o gyflogau'r staff yn parhau yn ddigyfnewid o ganlyniad i'r adolygiad. Fodd bynnag byddai nifer fechan yn cynyddu neu'n gostwng ac byddai'r cyflogau fyddai'n gostwng yn destun Polisi Diogelu Tâl yr Awdurdod.

**Penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo penodi pump swydd "Pennaeth" newydd – Adfer Natur, Twristiaeth Adfywiol, Ymgysylltu a Chynhwysiant, Creu Lleoedd a Datgarboneiddio. Byddai penodi Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant yn cael ei gorlannu'n fewnol ar gyfer dau aelod o staff yn amodol ar y cynigion yn newid.
b) Cymeradwyo strwythur yr adran Adfer Natur.
c) Cymeradwyo strwythur yr adran Twristiaeth Adfywiol.
d) Cymeradwyo strwythur yr adran Datgarboneiddio a recriwtio Swyddog GIS. Byddai rôl y Swyddog Datgarboneiddio yn cael ei hystyried unwaith y byddai'r swyddogaeth "Pennaeth" wedi'i benodi.
e) Bod strwythur yr adran Ymgysylltu a Chynhwysiant yn cael ei gymeradwyo ar y lefel uchaf, ac eithrio Iechyd a Lles, i roi sicrwydd i'r ddau reolwr yr effeithir arnynt gan y rhaglen newid a'r timau Parcmyn ac Addysg.
f) Cymeradwyo recriwtio Cyfrifydd Cynorthwyol (0.5) i'r adran Gyllid.
g) Cymeradwyo rôl y swyddog Iechyd a Diogelwch a Hyfforddiant, yn ogystal â symud rôl y Cydlynydd Gwirfoddolwyr i'r adran Adnoddau Dynol neu i'r adran Pobl a Llywodraethu.
h) Dirprwyo'r newidiadau i'r adran Creu Lleoedd i'r Prif Weithredwr yn amodol ar ganlyniad yr ail ymgynghoriad â'r staff.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 heb eu diwygio. |